# Adroddiad ar Fylchau a Chyfleoedd Cyflogwyr

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Pobl a Gwaith i gynnal ymchwil i asesu'r cyfleoedd a'r bylchau o ran cyflogwyr ar gyfer ffoaduriaid yng Nghymru. Nod yr ymchwil hon yw deall y cyfleoedd a'r bylchau yn y farchnad lafur y gallai ffoaduriaid eu llenwi yng Nghymru, casglu enghreifftiau o arferion gorau wrth ddatblygu cyfleoedd cyflogaeth i ffoaduriaid a nodi ffyrdd y gellid datblygu neu wella cymorth drwy'r prosiect AilGychwyn: Integreiddio Ffoaduriaid a llwybrau eraill. Fel rhan o'r ymchwil hon, bydd Pobl a Gwaith yn casglu gwybodaeth drwy gyfweliadau.

Llywodraeth Cymru yw'r rheolydd data ar gyfer yr ymchwil. Fodd bynnag, bydd Pobl a Gwaith yn dileu unrhyw ddata personol a ddarperir yn ystod y cyfweliadau ac yn sicrhau bod y data crai yn ddienw, cyn iddynt gael eu rhannu â Llywodraeth Cymru.

Bydd yr wybodaeth a gesglir yn ystod y prosiect yn cael ei chynnwys mewn adroddiad a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru ac o bosibl mewn cyhoeddiadau eraill gan Pobl a Gwaith a Llywodraeth Cymru.

Mae cymryd rhan yn yr ymchwil hon yn gwbl wirfoddol. Fodd bynnag, mae eich barn a'ch profiadau yn bwysig er mwyn helpu i lywio polisïau Llywodraeth Cymru.

Enw'r person cyswllt ar gyfer y prosiect hwn yn Pobl a Gwaith yw Duncan Holtom.
Cyfeiriad e-bost: Duncan.Holtom@peopleandwork.org.uk
Rhif ffôn: 029 2048 8536

## HYSBYSIAD PREIFATRWYDD

### Pa ddata personol sydd gennym ac o ble'r ydym yn cael yr wybodaeth hon?

Diffinnir data personol o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) fel 'unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud ag unigolyn adnabyddadwy y gellir ei adnabod yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol yn benodol drwy gyfeirio at ddyfais adnabod'.

Rydych wedi cael eich gwahodd i gymryd rhan yn y cyfweliad gan Pobl a Gwaith oherwydd eich bod wedi cael eich nodi fel unigolyn a allai gyfrannu at yr ymchwil. Mae eich gwybodaeth yn cael ei chadw gan Lywodraeth Cymru oherwydd yr ymgysylltwyd â chi ynghylch cyflogaeth a/neu gymorth ar gyfer ffoaduriaid yn y gorffennol. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi darparu eich manylion cyswllt i Pobl a Gwaith. Dim ond at ddibenion cynnal y prosiect ymchwil y bydd Pobl a Gwaith yn defnyddio eich manylion cyswllt. Mae sefydliadau cenedlaethol perthnasol wedi cael gwahoddiad i gymryd rhan gan ddefnyddio manylion cyswllt sydd ar gael ar-lein.

Nid oes angen casglu rhagor o ddata personol gennych chi ar gyfer yr ymchwil hon.

Mae eich cyfranogiad yn wirfoddol, ac os nad ydych am gymryd rhan na chael negeseuon i'ch atgoffa, atebwch yr e-bost sy'n eich gwahodd gan ofyn i'ch manylion gael eu dileu. Dim ond at ddibenion yr ymchwil hon y bydd Pobl a Gwaith yn defnyddio cyfeiriadau e-bost a rhifau ffôn.

Os byddwch yn dewis darparu data personol ychwanegol fel rhan o'r ymchwil, byddwn yn ceisio peidio â'ch adnabod o'r ymatebion a roddwch, na chysylltu'ch hunaniaeth â'r ymatebion hynny. Os byddwch yn gwneud ymholiad neu gŵyn ac yn darparu data personol a fydd yn gofyn am ymateb, bydd yr ymchwilydd yn anfon y cais ymlaen at y swyddog perthnasol yn unig ac yna'n dileu'r data personol o'r data ymchwil.

Bydd yr holl wybodaeth y byddwch yn ei darparu yn cael ei chadw yn ddienw. Ni fydd modd eich adnabod chi na'ch sefydliad drwy'r adroddiadau.

Bydd yr holl ddata, megis nodiadau o gyfweliadau, yn cael eu storio'n ddiogel a'u cadw am dri mis ar y mwyaf wedi i'r adolygiad ddod i ben ac yna'n cael eu dinistrio.

Rydym yn dymuno recordio cyfweliadau am resymau gweithredol. Byddwn yn gwneud hyn yn glir ichi cyn dechrau'r cyfweliad a bydd cyfle ichi ddweud wrthym os nad ydych yn fodlon inni recordio'r drafodaeth. Os caiff cyfweliadau eu recordio, bydd unrhyw ddata personol yn cael eu dileu yn ystod y broses drawsgrifio. Bydd

recordiadau'n cael eu dileu cyn gynted ag y bydd y broses hon wedi cael ei chwblhau. Os na chaiff trafodaethau eu recordio, ni fydd data personol yn cael eu cynnwys mewn nodiadau ysgrifenedig a baratoir ar ôl y cyfweliadau.

### Beth yw'r sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio eich data?

Y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu gwybodaeth yn yr ymarfer casglu data hwn yw er mwyn cyflawni ein tasg gyhoeddus, hynny yw, arfer ein hawdurdod swyddogol i gyflawni rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru.

Mae cymryd rhan yn gwbl wirfoddol. Mae astudiaethau ymchwil fel hyn yn bwysig i Lywodraeth Cymru i gasglu gwybodaeth a thystiolaeth, y gellir gweithredu arni, ynglŷn â'i gallu i gyflawni blaenoriaethau'r llywodraeth.

### Pa mor ddiogel yw eich data personol?

Mae gwybodaeth bersonol a ddarperir i Pobl a Gwaith yn cael ei storio ar weinydd diogel bob amser. Dim ond nifer cyfyngedig o ymchwilwyr sy'n gweithio ar y prosiect hwn sydd â mynediad at y data. Dim ond at ddibenion ymchwil y bydd Pobl a Gwaith yn defnyddio'r data hyn. Mae gan Pobl a Gwaith nod ardystio Cyber Essentials.

Mae gan Pobl a Gwaith weithdrefnau ar ymdrin ag unrhyw achosion o dorri rheolau diogelwch data. Os amheuir bod rheolau diogelwch data wedi cael eu torri, bydd Pobl a Gwaith yn rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru. Bydd Llywodraeth Cymru wedyn yn rhoi gwybod i chi ac i unrhyw reoleiddiwr perthnasol pan fo gofyniad cyfreithiol arnom i wneud hynny.

Adroddir ar yr holl ddata a gesglir drwy'r ymchwil hon mewn fformat dienw. Ni fydd yn cynnwys eich manylion cyswllt a bydd unrhyw wybodaeth a allai arwain at eich adnabod mewn atebion penagored yn cael ei dileu. Bydd Pobl a Gwaith yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir i lunio adroddiad a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Ni fydd yr adroddiad hwn yn cynnwys unrhyw wybodaeth y gellid ei defnyddio i adnabod cyfraniadau unrhyw gyfranogwyr unigol.

### Pa mor hir ydym ni'n cadw eich data personol?

Bydd Pobl a Gwaith yn cadw data personol yn ystod cyfnod y contract, a bydd unrhyw ddata personol nad ydynt eisoes wedi cael eu tynnu o'r ymchwil yn cael eu dileu gan Pobl a Gwaith dri mis wedi i'r contract ddod i ben. Dim ond adroddiadau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cael gan Pobl a Gwaith ac ni fydd yn cael unrhyw ddata personol.

## Hawliau unigol

O dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, mae gennych yr hawliau canlynol mewn perthynas â'r wybodaeth bersonol yr ydych yn ei darparu fel rhan o'r ymchwil hwn. Mae gennych hawl i:

- Gael gweld copi o'ch data eich hun
- Gofyn i ni gywiro gwallau yn y data hwnnw
- Gwrthwynebu prosesu neu gyfyngu ar brosesu (o dan amgylchiadau penodol)
- Mynnu bod eich data'n cael eu 'dileu' (o dan amgylchiadau penodol)
- Gwneud cwyn i'r Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

Manylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yw: Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire, SK9 5AF.

Rhif ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113.

Gwefan: www.ico.gov.uk

## Rhagor o wybodaeth

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach ynglŷn â sut y bydd y data a ddarperir fel rhan o'r astudiaeth hon yn cael eu defnyddio gan Lywodraeth Cymru, neu os ydych yn dymuno arfer eich hawliau gan ddefnyddio'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, cysylltwch â:

Enw: John Davies (Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus, Llywodraeth Cymru)
Cyfeiriad e-bost: John.Davies35@llyw.cymru
Rhif ffôn: 0300 025 3895

Gellir cysylltu â Swyddog Diogelu Data Llywodraeth Cymru yn:

Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ, E-bost: SwyddogDiogeluData@llyw.cymru.